

Cynigion Cyfarfod Cyffredinol 2012 fel y pasiwyd:

1) NEWID STRWYTHUR CYMDEITHAS YR IAITH

A. EIN BOD YN NEWID Y DREFN O GYLLIDO SWYDDOGION MAES YN GANOLOG

Bydd y gronfa ganolog yn dyrannu'n flynyddol i bob rhanbarth (sydd â chyfansoddiad i'w chytuno) gyllid sy'n cyfateb i'r hyn sy'n cael ei wario ar hyn o bryd ar Swyddog Maes, cynnal swyddfa etc. Cyfrifoldeb y Rhanbarth fydd penderfynu sut i wario'r swm o ran cyflogi swyddog llawn neu ran amser neu ar y cyd gyda rhanbarth arall, a ble i gynnal swyddfa ranbarthol neu i wario cyllid ar ymgyrchu rhanbarthol.

Bydd unrhyw swyddog Maes rhanbarthol a gyflogir felly yn atebol wedyn i'r Cadeirydd Rhanbarth, er y disgwylir iddynt gydweithio mewn tîm gyda swyddogion eraill, a byddai'r senedd yn dyfarnu ar unrhyw wahaniaeth barn o ran dyletswyddau, gyda phosibiliad apêl at y Cyfarfod Cyffredinol. Disgwylir y bydd y Rhanbarth yn y lle cyntaf yn cyflogi Swyddogion Maes cyfredol, a byddai'r gronfa ganolog yn gwarantu cyflog unrhyw swyddog presennol am y 2 flynedd gyntaf pe na bai hynny'n digwydd (a byddai unrhyw swyddog felly wedyn yn gyfrifol i'r cadeirydd cenedlaethol). Anogir pob rhanbarth i gychwyn yn syth ar ddechrau trefn newydd Cyfri Ymgyrchu Rhanbarthol gan geisio archebion banc gan bobl sy'n ymboeni am ddyfodol eu cymunedau ac yn bleidiol i weithgarwch lleol. Yn ystod y ddwy flynedd gyntaf, gall Rhanbarth ddefnyddio peth o'r arian hwn at ymgyrchu rhanbarthol neu grynhoi cyfri at y dyfodol.

Wedi dwy flynedd, bydd strwythur pob swydd cyflogedig, yn swyddogion maes a swyddogion canolog, yn cael ei adolygu gan Senedd Cymdeithas yr Iaith. Gwneir penderfyniad ar y dull mwyaf cynaliadwy o rannu arian y Gronfa Ganolog yn seiliedig ar sefyllfa ariannol y Gymdeithas erbyn hynny ac ar sefydlogrwydd ariannol y rhanbarthau.

Byddai adolygiad ac adroddiad blynyddol i'r Cyfarfod Cyffredinol ar gynnydd, ac un o brif brosiectau canolog y Gymdeithas o Hydref 2012 fyddai cynorthwyo swyddogion rhanbarth i greu strwythurau codi arian o'r fath.

Byddai'r rhanbarthau fel a ganlyn:

- Gwynedd-Môn
- Morgannwg-Gwent
- Dyfed (ar ffurf i'w benderfynu gan aelodau rhanbarthau presennol Ceredigion a Chaerfyrddin/Penfro)
- Byddai Clwyd yn cael chwarter lwfans er mwyn cynyddu gweithgarwch yno
- Bydd arian ar gael ar gais er mwyn gweithio ar brosiectau penodol yn Rhanbarth Powys.

Er mwyn mesur llwyddiant hyn dylai adroddiadau cadeiryddion rhanbarth fod yn nodi ffeithiau fel faint o aelodau ychwanegol yn gyffredinol sydd, faint a gyda phwy mae swyddogion wedi cysylltu, beth sydd wedi'i gynnal, faint o bobl sydd wedi dod at gyfarfod, beth ddeilliodd ohono.

Er y bydd pob Swyddog Maes a gyflogir tan y drefn hon yn cael ei gyllido yn y pen draw trwy gronfeydd rhanbarthol, bydd y drefn yn parhau i gael ei gweinyddu – o ran gofynion dedfwriaeth gyflogaeth – gan y trysorydd canolog rhag gosod baich cyfrifoldeb gweinyddol ychwanegol ar bob rhanbarth.

B. SWYDDI A GYLLIDIR YN GANOLOG

Byddai adolygiad hefyd o swyddi a gyllidir yn ganolog wedi dwy flynedd yn gyfamserol â'r newidiadau yn y drefn ranbarthol. Rhestrir y swyddi canolog fel a ganlyn:

- Prif Swyddog Cyfathrebu a Chyswllt y Cynulliad (gweler isod) a fydd hefyd yn arwain tîm o swyddogion. Yn ymarferol, bydd hwn yn barhad o'r swydd bresennol gydag adolygiad dyletswyddau wedi 2 flynedd. Bydd y Swyddog yn gyfrifol i'r Cadeirydd cenedlaethol.
- Arweinydd Uned Cyswllt â'r Cynulliad. Mewn ymateb i ddyrannu grymoedd deddfu i'r Cynulliad, ac o ganlyniad i'r gwaith helaeth a wnawn eisoes wrth ymateb i ymgynghoriadau a'r dylanwadu polisi cyhoeddus bydd y Gymdeithas yn sefydlu Uned Cyswllt â'r Cynulliad i ffurfio a phwyso am dderbyn polisiau penodol mewn perthynas â materion sydd yn gyfrifoldeb gan ein llywodraeth ganolog. Penodir swydd 10 awr yr wythnos o arweinydd i gydlynu gwaith yr uned ac i fod yn gyfrifol i Brif swyddog Cyfathrebu a Chyswllt y Cynulliad. Bydd y gronfa ganolog yn talu am y swydd 10 awr yr wythnos i ddechrau, ond cychwynnir cronfa gan apelio at gefnogwyr sydd am weld llwyddiant uned o'r fath, a disgwylir o fewn 2 flynedd y bydd y gronfa honno'n talu am y swydd, ac yn wir yn galluogi ychwanegu at yr oriau cyflogedig. Dylai'r uned dynnu rhagor o bobl mewn sydd efo diddordeb yn y maes o ehangu ein dylanwad er budd llwyddiant ymgyrchoedd y mudiad. Byddai amlygu'r gwaith rydyn ni eisoes yn ei wneud, yn gwella ein ymgyrchu ar lefel y Cynulliad Cenedlaethol yn cyfathrebu ein hamcanion a'n gwaith polisi ym mhob un o'n meysydd ymgyrchu ac yn ei wneud yn fwy gweledol ymhlith gweinidogion, gwleidyddion etholedig a swyddogion sifil.
- Swyddog Gweinyddol / Prosiectau – eto i'w adolygu o fewn 2 flynedd. Yn ymarferol byddai hwn yn barhad ar hyn o bryd o swydd y Swyddog Ymgyrchu sydd hefyd yn gyfrifol am weinyddiaeth a materion bob dydd y swyddfa ganolog yn hytrach na bod a gorolwg dros ein holl ymgyrchoedd sy'n gorgyffwrdd â gwaith y Swyddog Cyfathrebu. O Fedi ymlaen, y prosiect newydd am 6 mis fyddai cynorthwyo rhanbarthau (ac eraill) i sefydlu'r rhwydweithiau codi arian a amlinellir uchod.
- Cynorthwyydd Gweinyddol (sy'n byw yn lleol) ar gyfer ein Prif Swyddfa yn Aberystwyth. Cyflogir y person hwn am 10 awr yr wythnos (eto i'w adolygu wedi 2 flynedd) i gyflawnitasgau wythnosol penodol, tra bydd y Swyddog Gweinyddol/Prosiectau yno i ddellio â materion sy'n codi bob dydd.

C. ANNOG RHWYDWEITHIO LLEOL

Mae'r Cyfarfod Cyffredinol yn annog rhanbarthau i drefnu cyfarfodydd lleol ar ffurf fforwm cynhwysol i drafod pynciau arbennig o berthnasedd i gymunedau lleol a datblygu ymgyrchoedd lleol penodol yn hytrach na chynnal yn unig cyfarfodydd cell leol ffurfiol.

Cynigir gan Senedd Cymdeithas yr Iaith

2) DIWYGIO CYFANSODDIAD SENEDD A CHYNGOR CYMDEITHAS YR IAITH

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol

1. Fod y cynnig a basiwyd llynedd ynghylch trefn reoli'r Gymdeithas yn dweud fod gan Senedd Cymdeithas yr Iaith ryddid i weinyddu'r cynnig yn anffurfiol yn ôl yr angen yn ystod y flwyddyn gyntaf
2. Fod angen ffurfioli a chadarnhau rhai materion yn y cynnig yn dilyn profiad y flwyddyn gyntaf o'i gweithredu

Mae'r Cyfarfod Cyffredinol yn diwygio'r cynnig a basiwyd llynedd fel a ganlyn:

1. Cyfansoddiad y Senedd:

- a. Bydd swyddogion cyflogedig yn aelodau llawn o'r Senedd ac felly â hawl pleidleisio a gosod cynigion mewn cyfarfodydd Senedd
- b. Nid oes gofyn i'r Trysorydd fod yn bresennol mewn cyfarfodydd Senedd ac felly ni fydd ganddo hawliau pleidleisio.
- c. Yn absenoldeb Cadeirydd neu Is-Gadeirydd unrhyw grŵp ymgyrch dylai grŵp ddewis cynrychiolydd arall.
- d. Dylai un cynrychiolydd o bob rhanbarth fod yn bresennol yn y Senedd a bydd ganddynt hawl pleidleisio.

Cyfansoddiad y Cyngor

- a. Ychwanegir y swyddi canlynol at restr y sawl y bydd disgwyl iddynt fod yn bresennol mewn cyfarfod Cyngor: y Trysorydd, Swyddog Codi Arian, Swyddog Aelodaeth, Swyddog Mentrau Masnachol, Golygydd y Tafod a Swyddog Gwefan a Dylunio. O ganlyniad, bydd Cyngor y Gymdeithas yn cynnwys holl aelodau Senedd y Gymdeithas ynghyd ag un cynrychiolydd ychwanegol o bob rhanbarth, y Trysorydd, Swyddog Codi Arian, Swyddog Aelodaeth, Swyddog Mentrau Masnachol, Golygydd y Tafod a Swyddog Gwefan a Dylunio, ac yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn ar adegau i'w penodi gan y Senedd.
- b. Ychwanegir y rhai canlynol at restr y sawl sydd â hawl pleidleisio a gosod cynigion mewn cyfarfod o'r Cyngor - y Trysorydd, Swyddog Codi Arian, Swyddog Aelodaeth, Swyddog Mentrau Masnachol, Golygydd y Tafod a Swyddog Gwefan a Dylunio. Cynigir gan Senedd Cymdeithas yr iaith

3) TREFN ADDYSG I GYMRU

Mae'r Cyfarfod Cyffredinol yn estyn gwahoddiad cyffredinol at fforwm yn yr hydref i drafod trefn gyllido a rheoli newydd ar gyfer ysgolion Cymru. Credwn fod y drefn bresennol yn seiliedig ar gystadleuaeth o gyfnod Margaret Thatcher, ac nad yw'n addas at anghenion Cymru.
Cynigydd - Grŵp Ymgyrch Addysg

4) ARWYDDO BODOLAETH Y COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Galwn ar sefydliadau addysg uwch i godi arwyddion amlwg ar eu meysydd yn hysbysebu bodolaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol os ydynt yn bartneriaid gyda'r Coleg. Fel arall, datganwn y bydd y Gymdeithas yn codi'r arwyddion hyn ein hunain.
Cynigydd- Grŵp Ymgyrch Addysg

5) CROESAWU SEFYDLU CYNGHRAIR CYMUNEDAU CYMRU

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol fod darlith Tynged yr Iaith 2 yn dweud mai sicrhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol fydd canolbwynt ymgyrchu Cymdeithas yr Iaith.
Rydym yn croesawu sefydlu Cyngghrair Cymunedau Cymru fel datblygiad pwysig i'r perwyl hwnnw.

Cynigydd – Hywel Griffiths
Eilydd – Robin Crag

6) CYNNIG BRYS

Llongyfarchwn Jamie Bevan am ei ddewrder a dyfalbarhad yn ystod ei garchariad dros yr iaith. Mae carchariad Jamie wedi amlygu y ffordd docenistaidd ac annigonol mai rhai cyrff cyhoeddus a phreifat yn dewis gweithredu yng Nghymru tuag at y Gymraeg. Mae Cymdeithas yr Iaith wedi gwneud cwyn swyddogol am y ffordd anheg gafodd Jamie ei drin cyn ac yn ystod ei garchariad a chredwn fod hawliau dynol sylfaenol wedi cael eu tramgwyddo. Nodwn yn benodol fod Gwasanaeth y Llysoedd a Charchardai Cymru yn gyrff sy'n cael eu cynnwys yn Neddf Iaith 1993 a thrwy beidio cynnig darpariaeth Gymraeg eu bod yn torri'r ddeddf honno.

Mynegwn ein pryder na wnaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r system o ddefnyddio Cynlluniau Iaith sicrhau bod y cyrff perthnasol yn cydymffurfio gyda eu dyletswyddau statudol.

Galwn ar Grwp Hawliau Cymdeithas yr Iaith i ymgyrchu ymhellach am y materion yma. Galwn hefyd ar Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg i ddefnyddio achos Jamie Bevan fel sbardun i wneud gwahaniaeth trwy gynnal ymchwiliad trwyadl i'r sefyllfa a defnyddio ei phwerau i sicrhau bod y cyrff yma yn newid eu dulliau gweithredu er mwyn cyfarfod a hawl pobl Cymru i ddefnyddio'r Gymraeg.